# CABINET

# DYDD LLUN, 25 GORFFENNAF 2022

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd L.D. Evans (Yr Is-gadeirydd yn cadeirio'r cyfarfod)

**Cynghorwyr (Yn y Siambr):**

| | | | |
|---|---|---|---|
| C.A. Davies | G. Davies | P.M. Hughes | G.H. John |
| A. Lenny | E.G. Thomas | A. Vaughan Owen | |

**Cynghorwyr (Yn rhithwir):**
J. Tremlett

**Hefyd yn bresennol (yn rhithwir):**
Y Cynghorydd D. Cundy

**Roedd y Swyddogion canlynol yn bresennol yn y cyfarfod (yn y Siambr):**
W. Walters, Prif Weithredwr
C. Moore, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol
L.R. Jones, Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith
G. Morgans, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Addysg a Phlant
D. Hockenhull, Rheolwr y Cyfryngau a Marchnata
A. Williams, Pennaeth y Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwastraff
H. Morgan, Rhelowr Datblygu Economaidd
C. S. Higginson, Media Manager
S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd
J. Owens, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd [Cymerwr Cofnodion]

**Roedd y Swyddogion canlynol yn bresennol yn y cyfarfod (yn rhithwir):**
J. Morgan, Pennaeth Cartrefi a Chymunedau Mwy Diogel
I. Jones, Pennaeth Hamdden
M. Evans Thomas, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Siambr - Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP ac o bell - 10.00 - 10.52 yb**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd D. Price.

## 2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL.

| Enw | Eitem ar yr Agenda | Datgan Buddiant |
|---|---|---|
| W. Walters, Prif Weithredwr | 12 - Prosiect Cyfalaf Oriel Myrddin | Mae ei gŵr yn gweithio i un o'r contractwyr ar y fframwaith. |

## 3. CWESTIYNAU Â RHYBYDD GAN YR AELODAU

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau â rhybudd wedi cael eu cyflwyno gan yr Aelodau.

## 4. CWESTIYNAU Â RHYBYDD GAN Y CYHOEDD

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

## 5. CRONFA FFYNIANT GYFFREDIN Y DU

Bu'r Cabinet yn ystyried adroddiad a oedd yn manylu ar lefel y cyllid i'w ddarparu i Awdurdodau Lleol ar draws rhanbarth De-Orllewin Cymru yn ystod y 3 blynedd nesaf yn unol â meysydd blaenoriaeth Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU.

Gofynnwyd i'r Cabinet gymeradwyo Cynllun Buddsoddi Rhanbarthol De-Orllewin Cymru a gyflwynwyd yn Atodiad A i'r adroddiad, a oedd wedi'i gydlynu gan Gyngor Abertawe fel yr Awdurdod arweiniol ar ran rhanbarth y De-orllewin, i gael ei gymeradwyo gan Lywodraeth y DU a rhoi'r Gronfa ar waith ar ôl hynny.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:**

5.1 Cymeradwyo'r camau a gymerwyd hyd yn hyn i alluogi'r Sir i elwa o Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU;

5.2 Cymeradwyo'r Cynllun Buddsoddi Rhanbarthol ar gyfer De-orllewin Cymru sy'n nodi sut y bydd Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU yn cael ei defnyddio yn y rhanbarth rhwng 2022/23 a 2024/25, cyn cyflwyno'r cynllun i Lywodraeth y DU.

## 6. EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD SIR GAERFYRDDIN 2023

Bu'r Cabinet yn ystyried adroddiad a oedd yn rhoi gwybodaeth am Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd i'w chynnal yn Sir Gaerfyrddin yn 2023. Nodwyd bod y digwyddiad wedi ei ohirio yn 2021 o ganlyniad i bandemig coronafeirws.

Cydnabu'r Cabinet y buddion a fyddai'n deillio o'r Eisteddfod o ran llesiant economaidd Sir Gaerfyrddin, a'r cyfraniad at ddatblygiad y Gymraeg yn y sir a oedd yn adlewyrchu'r ymrwymiad i gefnogi'r dyhead o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Yn hyn o beth, cyfeiriwyd at Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yr Awdurdod a gymeradwywyd yn y ddiweddar gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg a oedd yn nodi sut y byddai'r Cyngor yn datblygu'r ddarpariaeth Gymraeg yn ei ysgolion yn ystod y 10 mlynedd nesaf.

Nododd y Cabinet y cais a wnaed gan yr Urdd am gymorth ychwanegol posibl i sicrhau bod y digwyddiad yn cael ei reoli'n llwyddiannus yn sgil y newidiadau a wnaed yn dilyn pandemig coronafeirws. Yn hyn o beth, cafodd goblygiadau staffio'r Awdurdod eu hystyried gan y Cabinet. Cyfeiriwyd at Gytundeb Lefel Gwasanaeth a fyddai'n cael ei lunio rhwng yr Awdurdod a'r Urdd i sicrhau bod y profiad gorau posibl yn cael ei roi i'r plant, y bobl ifanc, a thrigolion y sir yn ystod y cyfnod paratoi 12 mis ac yn ystod wythnos y digwyddiad.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:**

**6.1** Bod cymorth ariannol yn cael ei roi i Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Sir Gâr 2023, gan roi cyfraniad ariannol o £80,000 i Eisteddfod yr Urdd;

**6.2.** Rhoi cymorth i Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn unol â'r gwasanaethau a nodir yn yr adroddiad;

**6.3** Penodi'r Rheolwr Marchnata a'r Cyfryngau i arwain y prosiect, gan gyflwyno adroddiadau chwarterol i'r Cabinet.

**7. PANEL YMGYNGHOROL TRAWSBLEIDIOL YNGHYLCH NEWID YN YR HINSAWDD**

Gan gyfeirio at gofnod 9.2 y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Gorffennaf 2022, rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad ar gylch gwaith ac aelodaeth arfaethedig y Panel Ymgynghorol Trawsbleidiol ar Newid yn yr Hinsawdd, a oedd yn cael ei sefydlu i gefnogi dull yr Awdurdod o fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a'r argyfwng natur.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo aelodaeth a chylch gwaith y Panel Ymgynghorol trawsbleidiol ar Newid yn yr Hinsawdd fel y nodwyd yn yr adroddiad.**

**8. ADRODDIAD BLYNYDDOL YNGYLCH RHEOLI'R TRYSORLYS A'R DANGOSYDD DARBODAETH 2021-2022**

Fel rhan o ofynion Côd Ymarfer diwygiedig CIPFA ar gyfer Rheoli'r Trysorlys, rhoddodd y Cabinet ystyriaeth i Adroddiad Blynyddol y Cyngor ynghylch Rheoli'r Trysorlys a Dangosyddion Darbodaeth ar gyfer 2021-22.

Mabwysiadodd y Cyngor Bolisi a Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a'r rhaglen gyfalaf bum mlynedd ar gyfer 2021-22 ar 3 Mawrth 2021. Rhestrodd yr adroddiad blynyddol y gweithgareddau a gynhaliwyd yn 2021-22.

**PENDERFYNWYD ARGYMELL I'R CYNGOR ei fod yn mabwysiadu'r Adroddiad Blynyddol ynghylch Rheoli'r Trysorlys a Dangosyddion Darbodaeth 2021-22.**

**9. ADRODDIAD MONITRO CYLLIDEB REFENIW Y CYNGOR**

Bu'r Cabinet yn ystyried Adroddiad Monitro Cyllideb Refeniw'r Cyngor a oedd yn rhoi sefyllfa ariannol diwedd blwyddyn i aelodau mewn perthynas â 2021/22.

Roedd y ffigurau alldro terfynol yn dangos tanwariant ar gyfer y flwyddyn ar lefel adrannol o £5,345k (ac yn cynnwys effaith y dyfarniad cyflog ar gyfer Ebrill 2021 y dyrannwyd mwy yn y gyllideb ar ei gyfer na'r hyn oedd ei angen). Ar ôl ystyried y taliadau cyfalaf a'r symudiad mewn cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd a

chronfeydd wrth gefn adrannol, roedd y sefyllfa net ar gyfer yr Awdurdod yn golygu tanwariant o £1,433k.

Nododd y Cabinet fod y tanwariant, yn bennaf, i'w briodoli i ffactorau a oedd yn ymwneud â phandemig coronafeirws. Yn hyn o beth, dywedwyd bod cyllid grant ychwanegol sylweddol wedi'i dderbyn oddi wrth Lywodraeth Cymru cyn diwedd y flwyddyn, a bod costau pellach yn gysylltiedig â'r coronafeirws wedi cael eu had-dalu i raddau helaeth o dan gynllun caledi Llywodraeth Cymru. Eglurwyd hefyd bod rhywfaint o gyllido cyfalaf o dan wariant wedi cael ei ddefnyddio i fynd i'r afael â phwysau sylweddol ar gyllidebau prosiectau cyfalaf yn ystod y flwyddyn. Ar ben hynny, cydnabuwyd bod rhai gwasanaethau wedi cael eu hoedi neu eu lleihau oherwydd cyfyngiadau coronafeirws yn ogystal â swyddi gwag yn ystod y cyfnod adrodd a gyfrannodd at y tanwariant.

Rhoddwyd ystyriaeth i'r Cyfrif Refeniw Tai a atodwyd wrth yr adroddiad yn Atodiad B a oedd yn nodi tanwariant o £8,907k ar gyfer 2021/22. Rhoddwyd crynodeb o'r prif amrywiannau i'r Cabinet mewn perthynas ag atgyweiriadau a chynnal a chadw, goruchwylio, rheoli a chymorth, darpariaeth ar gyfer drwgddyled, taliadau cyllido cyfalaf, cyllid grant ac incwm.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn adroddiad Monitro Cyllideb Refeniw y Cyngor ar gyfer Diwedd y Flwyddyn 2021-22.**

## 10. UNRHYW FATER ARALL Y GALL Y CADEIRYDD OHERWYDD AMGYLCHIADAU ARBENNIG BENDERFYNU EI YSTYRIED YN FATER BRYS YN UNOL AG ADRAN 100B(4)(B) O DDEDDF LLYWODRAETH LEOL, 1972.

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd unrhyw eitemau brys wedi dod i law.

## 11. GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod tra oedd yr eitem ganlynol yn cael ei hystyried, gan fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.**

## 12. PROSIECT CYFALAF ORIEL MYRDDIN

Gadawodd y Prif Weithredwr, W. Walters, y cyfarfod yn dilyn datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach.

**Ar ôl cynnal prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 11 uchod, beidio â chyhoeddi cynnwys yr adroddiad gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig am faterion ariannol neu faterion busnes unigolyn penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno) (Paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf). Roedd y prawf budd y cyhoedd mewn perthynas â'r adroddiad hwn yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth a geir ynddo oherwydd byddai datgelu'r wybodaeth yn tanseilio sefyllfa'r Cyngor yn y**

**broses gaffael a bod yn niweidiol mewn modd annheg i'r contractwr a ffefrir yn y farchnad ehangach.**

Bu'r Cabinet yn ystyried adroddiad a oedd yn rhoi gwybodaeth am ddatblygu Oriel Myrddin.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo'r argymhellion fel y nodir yn yr adroddiad er mwyn cefnogi datblygu Oriel Myrddin.**

______________________________ ______________________

**CHAIR** **DATE**